**Pwyllgor Cyfle Cyfartal   EOC-04-99(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Tachwedd 1999 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** |

| | |
|---|---|
| Jane Hutt (Cadeirydd) | Bro Morgannwg |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Edwina Hart | Gwyr |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Kirsty Williams | Aberhonddu a Maesyfed |
| Gareth Jones | Conwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| **Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor** | |
| Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Howard John | Anabledd Cymru |
| Judge Ray Singh | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| Cherry Short | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |

| | |
|---|---|
| Judith Jones | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| **Swyddogion** | |
| Kate Cassidy | Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adain Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Charles Willie | |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirpwy Clerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Jones.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur: EOC-04-99(p.1)**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig aelod newydd y Pwyllgor, Gareth Jones. Roedd Mr Jones wedi cymryd lle Jocelyn Davies fel y gellid cynrychioli'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 ar y Pwyllgor ar Gydraddoldeb Cyfle. Diolchodd y Cadeirydd i Jocelyn Davies am ei chyfraniad i waith y Pwyllgor.

1.2 Roedd y Cadeirydd am amlygu dwy eitem yn ei Hadroddiad. Byddai'n gofyn am gyfarfod â'r Llywydd i drafod canlyniad Eitem 6 ar yr agenda ynghyd â sesiwn briffio cyfle cyfartal i Aelodau'r Cynulliad a mynediad cyhoeddus i wybodaeth. Hefyd, yn dilyn trafodaeth ar Adroddiad MacPherson i lofruddiaeth Stephen Lawrence yn y cyfarfod diwethaf, roedd wedi ysgrifennu at Rosemary Butler, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Phlant, am y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a oedd yn ymwneud ag addysg yn yr Adroddiad. Darparwyd copi o'r llythyr i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

1.3 Codwyd sawl pwynt gan Aelodau am eitemau yn yr adroddiad:

- Teimlwyd nad oedd canlyniadau'r holiadur gofal plant o reidrwydd yn golygu nad oedd angen darpariaeth gofal plant. Ni chynhwyswyd staff y Cynulliad yn yr arolwg a gallai fod anghenion cyfredol ac anghenion yn y dyfodol nas nodwyd gan yr arolwg. Dywedodd Mrs Hart bod y posibilrwydd o gael darpariaeth ar y cyd â chyflogwyr eraill yn y Bae yn cael ei ystyried.

- Teimlwyd bod hyfforddiant mewn cyfle cyfartal yn flaenoriaeth, yn arbennig i'r rheini a fyddai'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus (swyddogion ac Aelodau). Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai papur ar gyfle cyfartal a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn cael ei ddarparu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Hysbysodd Charles Willie yr aelodau y byddai ymgynghorwyr annibynnol y Cynulliad ar benodiadau cyhoeddus yn derbyn hyfforddiant cyfle cyfartal fel rhan o becyn hyfforddi a gyflwynir ar 24 Tachwedd.

- Wrth drafod, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai penodi Comisiynydd Hawliau Anabledd Cymru yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cynulliad.

- Mewn ymateb i awgrym y gallai'r Cynulliad gynnal "Diwrnod Anabledd" lle y byddai anabledd yn ganolbwynt i holl weithrediadau'r Cynulliad, teimlai'r Aelodau fod anabledd yn rhy bwysig i gael ei droi'n "ghetto" un pwnc. Byddai strategaeth y Pwyllgor ar gyfer gosod y pwnc yn y brif ffrwd a'r drafodaeth lawn ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn darparu cyfrwng i'r Cynulliad ystyried ac amlygu pob agwedd ar gyfle cyfartal.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**
**Papurau: EOC-02-99(min) a EOC-03-99(min)**

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y ddau gyfarfod yn amodol ar un diwygiad i gofnodion EOC-03-99. Ym mharagraff 3.3, byddai'r cyfeiriad at y drafodaeth ar y cylchgrawn "Voices" yn cael ei gryfhau i ddatgan: "Teimlwyd nad oedd cynhyrchu adroddiad ar ymarferiad o'r fath ar fformat "cylchgrawn i ferched" yn briodol ac nad oedd yn darparu digon o wybodaeth i'r darllenydd."

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad ar Gynnydd y Rhaglen Waith**

3.1 Nododd Charles Willie bod 39 o'r 51 o gyfweliadau gyda Phenaethiaid Adeiniau'r Cynulliad bellach wedi'u cynnal. Roedd y rhaglen ar darged i'w chwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd a byddai adroddiad drafft yn cael ei gynhyrchu erbyn mis Ionawr 2000. Roedd y cyfweliadau eisoes wedi arwain at gynnydd calonogol yn nifer y swyddogion oedd yn cysylltu â'r Uned Polisi Cydraddoldeb am wybodaeth a chyngor. Ar 12 Tachwedd byddai'r Uned yn cyfarfod â Chyfarwyddwyr Grp yn y Cynulliad i drafod camau nesaf yr archwiliad cydraddoldeb.

3.2 Mynegodd y Pwyllgor bryder, er bod yr archwiliad yn werthfawr iawn a'i fod yn cynhyrchu canlyniadau, na fyddai gan yr Uned Cydraddoldeb ddigon o adnoddau i ymgymryd â'r gwaith a ddeilliai yn ei sgîl. Cydnabuwyd fod yr Uned yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag Ymgynghorwyr y Pwyllgor ac y gallent fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor ac arweiniad. Gallai 'arbenigwyr' cydraddoldeb ym meysydd eraill y Cynulliad hefyd gyfrannu eu gwybodaeth a'u profiad.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Yr Her Arweinyddiaeth - Cyflwyniad gan y Comisiynwyr Judge Ray Singh a Cherry Short, a Judith Jones, Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol**

4.1 Amlinellodd cynrychiolwyr Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol bwrpas a nodau'r rhaglen Her Arweinyddiaeth. Roedd yr Her yn deillio o gydnabyddiaeth, er gwaethaf bodolaeth y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ers 20 mlynedd a mwy, bod anghydraddoldeb hiliol yn dal wedi'i wreiddio mewn cymdeithas. Mae'r rhaglen yn gwahodd y rheini mewn safleoedd o ddylanwad, ar frig cwmnïau a sefydliadau, i gymryd yr awenau wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Roedd y Swyddfa Gymreig wedi ymuno â'r rhaglen ym mis Hydref 1998 ac roedd y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cadarnhau y byddai'r Cynulliad yn parhau'n llofnodydd. Yn ymarferol roedd hyn yn rhwymo pob un o Aelodau a swyddogion y Cynulliad i gymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

4.2 Mae tri llinyn i'r Her Arweinyddiaeth:

- Proffil Cyhoeddus - Anogir arweinwyr i gymryd cyfrifoldeb personol dros sicrhau eu bod hwy a'u sefydliadau ar flaen y gad o ran yr arfer

gorau.

- Ymroddiad i Weithredu - Adeiladu mesurau a strategaethau cydraddoldeb hiliol i brosesau gwneud penderfyniad a chynllunio eu sefydliadau, a llywio’r gwaith o ddatblygu rhaglenni camau gweithredu ymarferol, gyda mesurau perfformiad a cherrig milltir.

- Dathlu Cyflawniad - Anogir arweinwyr i ddefnyddio eu safle i godi proffil materion cydraddoldeb hiliol ac i amlygu’r llwyddiannau a gyflawnir.

Nod yr Her yw dangos sut mae pobl ddu a phobl lleiafrifoedd ethnig wedi wynebu gwahaniaethu yn y gorffennol a dangos ei bod yn gwneud synnwyr busnes da i ddefnyddio doniau a sgiliau pob aelod o gymdeithas i’r eithaf. Roedd cyfranogiad y Cynulliad yn yr Her yn bwysig gan ei fod mewn sefyllfa i osod esiampl i sefydliadau eraill.

4.3 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar fanylion sut y gweithredwyd yr Her Arweinyddiaeth a sut y gallai unigolion gymryd rhan yn y rhaglen. Gofynnwyd i lofnodwyr yr Her baratoi cynllun gweithredu manwl mewn ymgynghoriad â swyddogion o’r Comisiwn. Roedd y cynlluniau yn penodi’r cyfrifoldeb dros weithredu i unigolion penodol a byddai eu perfformiad wrth gyflawni’r camau gweithredu hyn yn cael ei fonitro, er enghraifft, yn eu gwerthusiadau blynyddol personol neu mewn contractau ag is-gontractwyr. Mae’r Comisiwn yn edrych ar gynnydd yn rheolaidd ac yn gwneud awgrymiadau os nad yw pethau wedi datblygu fel y’u bwriadwyd.

4.4 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar sut y gallai polisïau’r Cynulliad ymdrin â’r pwnc cydraddoldeb hiliol yn well ar addysg ac iechyd. Er enghraifft, teimlwyd nad oedd y cwricwlwm hanes yn darparu gwybodaeth ddigonol am hanes pobl ddu a phobl lleiafrifoedd ethnig yn y DU; ac nad oedd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn gyffredinol, a oedd yn cael ei ddiwygio o fis Medi 2000, yn adlewyrchu materion du a lleiafrifoedd ethnig yn llawn. Ni fyddai un elfen o’r cwricwlwm newydd, addysg bersonol a chymdeithasol, yn cael ei gweithredu tan y flwyddyn 2001 a gallai fod cyfle i godi proffil materion yn ymwneud â hil wrth ddatblygu’r rhaglen arbennig honno. Addawodd Gareth Jones y byddai’n trosglwyddo’r negeseuon i’r Pwyllgor Addysg Cyn-16.

4.5 Pwynt arall a godwyd wrth drafod oedd cynrychiolaeth pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig ymhlith staff y Cynulliad. Ymddengys fod cynrychiolaeth llawer uwch ymhlith y staff diogelwch nos ar gontract nag ymhlith staff parhaol y Cynulliad. Byddai’r Her Arweinyddiaeth yn rhoi hyder i bobl ofyn cwestiynau am faterion tebyg.

4.6 Byddai’r Comisiwn yn cynnal digwyddiad i adolygu’r Her Arweinyddiaeth yng Nghymru ar 7 Rhagfyr. Gwahoddwyd pob un o Aelodau’r Cynulliad. Cynhyrchir llyfryn i ddangos y cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan y rheini a oedd yn cymryd rhan yn yr Her. Byddai’r Prif Ysgrifennydd a’r Ysgrifennydd Parhaol yn sôn am y cynnydd a wnaed yn y Cynulliad.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cynhadledd Amrywiaeth Diwylliannol Byd-eang 2000 - Cyflwyniad gan Dianne Morley a Lorraine Hutchings, trefnwyr Cynhadledd Amrywiaeth Diwylliannol Byd-eang 2000**

5.1 Rhoddodd Lorraine Hutchings, Rheolwraig Digwyddiadau, a Sarah Chilton, Rheolwraig Rhaglenni, gyflwyniad am nodau a chwmpas Cynhadledd Amrywiaeth Diwylliannol Byd-eang 2000 a gynhelir yng Nghaerdydd rhwng 20 a 22 Mawrth 2000. Hwn oedd yr ail ddigwyddiad yn yr hyn y gobeithir a fyddai’n gyfres o gynadleddau, y cynhaliwyd y cyntaf ohonynt yn Sydney ym 1995. Byddai trefnwyr y digwyddiad cyntaf, Sefydliad Aml-Ddiwylliannol Awstralia, yn cynnal digwyddiad 2000 ar y cyd â’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a’r Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Diben y Gynhadledd oedd ysgogi trafodaeth ryngwladol yngln ag atebion ymarferol i amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol. Byddai thema gan bob un o ddiwrnodau'r digwyddiad: cael gwared ar wahaniaethu hiliol; arweinyddiaeth; ac undod a gwahaniaeth. Gobaith y trefnwyr oedd y byddai'r Prif Weinidog yn agor y gynhadledd ac y byddai Nelson Mandela yn un o'r prif siaradwyr. Gwahoddwyd 2000 o gynadleddwyr o ledled y byd mewn llythyr gan y Prif Ysgrifennydd. Hyd yn hyn, roedd 1400 o gynadleddwyr wedi cyn-gofrestru o bum cyfandir a 40 o wledydd gan gynnwys cynrychiolwyr o Lywodraethau Awstralia, Canada a Tsieina. Byddai 100 o weithdai o hyd at 30 o gynadleddwyr. Ymhob gweithdy byddai hwylusydd wedi'i hyfforddi yn bresennol i alluogi'r cynadleddwyr i gyflawni cynllun gwaith penodedig. Byddai 12 sesiwn ystyried y byddai Prif Weithredwyr a Gweinidogion y Llywodraeth yn derbyn gwahoddiad iddynt.

5.3 Dewiswyd Caerdydd fel y lleoliad yn y DU i'r digwyddiad am y gwnaed ei chais drwy ysbryd partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a grwpiau cymunedol drwy'r ddinas. Roedd mantais gan Gaerdydd hefyd gan fod yno system lywodraethol newydd, sef y Cynulliad ac roedd ganddi hefyd brofiad o faterion yn ymwneud â hunaniaeth ddiwylliannol a iaith. Y gobaith oedd ymgorffori gweithgareddau eraill o amgylch prif raglen y digwyddiad, megis ymweliadau astudio â phrojectau cydraddoldeb hiliol, teithiau diwylliannol ac ymweliadau i dwristiaid ledled Cymru. Roedd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ran yn y gwaith cynllunio ar gyfer y Gynhadledd a byddai'n darparu cymorth.

5.4 Roedd George Craig, Uwch Gyfarwyddwr y Cynulliad dros Bolisi Cymdeithasol a Materion Llywodraeth Leol, yn aelod o'r Pwyllgor Llywio Strategol Rhyngwladol ar gyfer y digwyddiad. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn helpu i drefnu'r digwyddiad ac yn cynnig swyddog i weithio'n llawn amser arno. Mae gan y Cenhedloedd Unedig hefyd ran i'w chwarae yn y digwyddiad drwy eu cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Llywio a thrwy roi cymorth tuag at dalu costau rhai o'r cynadleddwyr o'r gwledydd tlotach. Roedd rhai gwledydd mwy cyfoethog a chynadleddwyr busnes hefyd yn cael gwahoddiad i gynorthwyo â chostau'r gwledydd tlotach drwy gyfrannu at gronfa ecwiti.

5.5 Wrth drafod, awgrymwyd y dylai'r Gynhadledd ystyried materion cydraddoldeb eraill. Cafwyd cais hefyd i'r trefnwyr sicrhau y dosbarthwyd y cyhoeddusrwydd a'r gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad ledled Cymru. Diolchodd y Cadeirydd i'r trefnwyr am eu cyflwyniad a chynigiodd ewyllys da a chefnogaeth y Pwyllgor iddynt. Pwysleisiodd bwysigrwydd y digwyddiad i Gymru ac roedd yn hyderus y gallai'r Cynulliad gynnig cymorth ymarferol mewn da yn ogystal ag awgrymu eraill a allai helpu.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cydraddoldeb Cyfle wrth Gynnal Busnes y Cynulliad**
**Papur: EOC-04-99(p.2)**

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a oedd yn cynnwys dyfyniadau o arweiniad cyfredol i Aelodau'r Cynulliad ar ymddygiad a dyfyniadau perthnasol o Adroddiad Grp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol (NAAG). Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr argymhellion hynny a wnaed yn Adroddiad NAAG nas bwriadwyd ar gyfer Rheolau Sefydlog. Codwyd dau brif fater: mynediad i bobl anabl, yn arbennig mewn perthynas ag adeilad newydd y Cynulliad; a mynediad i wybodaeth i bobl anabl a chymunedau du a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.

6.2 Teimlai'r Aelodau y byddai'n anfon neges drychinebus pe na byddai'r adeilad newydd yn hygyrch i bawb. Roedd y penseiri wedi addo ymgynghori ag Anabledd Cymru am eu cynlluniau datblygol ar gyfer yr adeilad newydd ond nid oedd yn ymddangos fod hyn yn digwydd. Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd y bu'r Ysgrifennydd Cyllid yn weithgar ar y mater hwn a dywedodd y byddai'n gofyn iddi gyflwyno adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor.

6.3 O ran mynediad i wybodaeth, teimlai'r Aelodau mai dim ond y cam cyntaf yn y broses oedd ymrwymiad i ddarparu gwybodaeth. Roedd angen i wahanol grwpiau mewn cymdeithas wybod sut y gallent gyfathrebu â'r Cynulliad. Roedd ymgynghori ac adborth yn allweddol er mwyn

i bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl gyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau a lleisio'u barn.

6.4 Cytunodd y Cadeirydd i gyfleu safbwyntiau'r Pwyllgor yn ei thrafodaethau â'r Llywydd a'r Ysgrifennydd Busnes. Awgrymwyd y dylid hysbysu'r rheolwyr busnes perthnasol am weithrediadau'r Pwyllgor fel y gallai pob un o'r pleidiau gwleidyddol fod yn ymwybodol o'r strategaeth cydraddoldeb oedd ar waith. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid anfon copi o'r cofnodion at y trefnwyr busnes er mwyn cyflawni hyn.

6.5 Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.